



Rhagfyr 23ain, 2018



Wedi'r oedfa bore 'ma bydd mins pei a diod i bawb lawr yn y Ganolfan. Cyn hynny, mwynhewch yr hyn sydd gan y Twmiaid i'w ddweud am y Nadolig. Bydd Geraint Rees yn cyflwyno, a Sian Elin sydd wrth yr organ. Diolchwn yn fawr i bawb yn y capel sydd wedi gofalu am waith gyda'n pobl ifanc yn ystod y flwyddyn.

Yr Wythnosau Nesaf

Rhagfyr 24ain - 11 o'r gloch y nos - yr oedfa arferol - cofiwch eich cerddi, eich hofferyn, eich darlleniad. Plŷs mynnwch air gyda Lyn West neu Geraint Rees os oes ganddoch eitem.

Rhagfyr 25ain - diwrnod o orffwys...

Rhagfyr 30ain - Geraint Wyn a Keith

Rowlands

Ionawr 6ed - Sul Efail Isaf

Ionawr 13eg - Eirian

Ionawr 20fed - Ceri Anwen, Gwerfyl a

Tomos Morse

Ionawr 27ain - Keith Rowlands

Bwco'r Capel neu'r Ganolfan:

carolinerees2@hotmail.com

Merched y Tabernacl

Cyfarfod cynta'r flwyddyn - bore Iau, 10fed o Ionawr yn y Ganolfan. Dewch yn llu gyda'ch syniadau i lunio rhaglen 2019 dros baned a chlonc.

OEDFAON 2019

Os hoffech arwain oedfa neu gyfrannu at oedfa yn ystod 2019, mynnwch air gyda geraintrees@hotmail.com.

Tafod y Tab

Daeth hi'n amser y flwyddyn unwaith yn rhagor i wahodd aelodau a chyfeillion i anfon adroddiad Pwyllgor neu Weithgor yr eglwys neu i gyflwyno cyfraniad ysgrifenedig neu luniau addas i'w cynnwys yn rhifyn mis Ionawr o Tafod y Tab. Dylech anfon eich cyfraniadau at Eleri a Gwilym

(gehpengwern@yahoo.co.uk).

Dyddiad cau i dderbyn eich cyfraniadau fydd **dydd Sul 13 Ionawr 2019.**

CASGLU DILLAD A NWDYDDAU

Bydd casgliadau dillad, nwyddau a thrugareddau ar gyfer **ADREF**, a chasgliadau dillad isa a dillad tywydd gwlyb i blant yn eu harddegau ar gyfer **NANTGWYN** yn parhau, wrth i'r angen gynyddu dros fisoedd y gaeaf.

Fe fyddwn ni hefyd yn eich gwahodd i gyfrannu dillad ac offer - mawr a bach - ar gyfer babanod ifanc yn y capel, er mwyn cefnogi **CWTCH BABY BANK**, elusen sy'n cydweithio gydag ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol i helpu mamau anghenus, ac wedi ei lleoli mewn warws yn

Ffynnon Taf.



Mae Carys Davies yn fodlon galw draw i gasglu offer a chelfi, a'u danfon i Cwtch ar eich rhan.

carys.davies75@gmail.com.

07544 593820

Os byddwch yn gadael bagiau dillad a nwyddau yn llofft y capel, gofynnwn i chi eu labelu'n glir fel ein bod yn eu danfon i'r elusen briodol. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth bob amser.

AMLENNI BROWN 2018

Gan fod tymor elusennau 2018 yn prysur ddod i ben, dyma eich atgoffa am yr elusennau fydd yn derbyn cymorth ariannol o'r casgliad eleni: Adref, Ysgol Tŷ Coch Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf Cymorth i Ferched Cymru a Cymdeithas Nychdod Cyhyrol Duchenne a Becker

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNAACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

Ionawr 13 am 3 y prynhawn

Mae llawer o bethau yn y Ganolfan a allai fod yn sbwriel, neu yn bethau gwerthfawr. Gadawyd nhw yno dros y blynyddoedd ac mae'r lle wedi llenwi. A wnaiff un aelod o bob grŵp allweddol yn y capel fod ar gael y prynhawn hwnnw er mwyn helpu gyda'r clirio - y Twmiaid, Ysgol Sul, y gynulleidfa Saesneg ac aelod o'r Bwrdd. Dylai gymryd dim mwy nag awr. Plis mynnwch air gyda Caroline Rees.

Rhestrau: Blodau a Chroesawu 2019

Os hoffech gyfrannu blodau, neu wneud y croesawu wrth ddrws y ffyrnt ar fore Sul, plis torrwrch eich henw ar y rhestrau yn y cyntedd. Diolch. Croeso i bawb gyfrannu.

Cyfraniadau 2018 ac Amlenni 2019

Carai Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddiolch o galon am bob cefnogaeth a gafwyd i waith yr eglwys trwy gydol 2018. Ond wrth i'r flwyddyn brysur dynnu tua'i therfyn dymuna Arwyn Jones, ein Trysorydd, atgoffa'r aelodau bod angen cyflwyno pob cyfraniad at gostau cynnal yr eglwys am y flwyddyn 2018 erbyn diwedd mis Rhagfyr fan bellaf. Mae Arwyn hefyd am ail-adrodd yr apêl a wnaed ganddo yn y Cwrdd Blynyddol, sef bod yr aelodau'n ystyried cynyddu eu cyfraniadau i gwrdd â'r twf yng nghostau cynnal yr achos o flwyddyn i flwyddyn ac am atgoffa pawb sy'n cyfrannu drwy siec i'w gwneud yn daladwy i 'Capel y Tabernacl, Cyf.' ac i nodi ar gefn y siec os yw'n gyfraniad at apêl benodol (e.e. Apêl Madagascar). I'r aelodau sy'n bwriadu defnyddio amlenni gwyn a/neu frown yn 2019, gellir eu casglu o ddydd Sul ymlaen o'r blwch yng nghyntedd y capel. Diolch yn fawr

BANC BWYD TAF ELÁI

Aeth llond car o fwyd i'r Banc Bwyd wythnos diwethaf. Roedd eu diolchiadau nhw'n fawr iawn i aelodau'r capel am eu cyfraniadau hael iawn dros yr wythnosau diwethaf. Diolch.

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau a llawer arall ar wefan y capel:
www.tabernacl.org

Tê Nadolig i'r Pentref

Prynhawn yma am 3 cynhelir tê traddodiadol yn y Ganolfan i geisio rhannu ysbryd y nadolig, yn enwedig i'r rhai sy'n cael nadolig ar eu pennau eu hunain. Diolch i bawb sydd wedi gwirfoddoli cacennau neu frechdanau.

Mae croeso i chi eu rhoi i Caroline ar ddiwedd yr oedfa, neu alw draw prynhawn 'ma tua 2.30 gyda nhw. Diolch yn fawr.

Ymgyrchoedd Nadolig yr Ysgol Sul

RCT Women's Aid – Os allwch chi gyfrannu unrhyw nwyddau hylendid i ferched, byddwn yn creu bocsys i'w dosbarthu yn lleol. Dyma'r linc i'r wefan am ragor o wybodaeth. Bydd angen eich cyfraniadau erbyn dydd Sul, Rhagfyr 9fed

<https://www.wa-rct.org.uk/news/christmas-gift-appeal-2018>

Pobl Ddi-gartref – os fedrwch chi gyfrannu pâr o sannau a llenwi un hosan gyda nwyddau defnyddiol e.e nwyddau hylendid, losin neu siocled, crib, menyg, wet wipes, dillad isaf. Cofiwch roi'r hosan arall ynddi hefyd! Byddwn yn trosglwyddo'r eitemau i'r criw sy'n helpu gyda bobl ddigartref yng Nghaerdydd. **Mae 2 focs ar lawr cynta'r capel i dderbyn eich cyfraniadau. Diolch o flaen llaw am eich cefnogaeth**

Nadolig Llawen i bawb sydd wedi bod yn rhan o fywyd yr eglwys dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch am eich cwmni ac edrychwn ymlaen gyda'n gilydd at heriau 2019.